**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

# Asesiad o Les Lleol Abertawe: Diweddariad 2018

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) yn mynnu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru'n paratoi ac yn cyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Yn lleol, cyhoeddwyd yr asesiad cyntaf o les lleol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC) ym mis Mai 2017. Lluniwyd sylfaen dystiolaeth yr asesiad gan Grŵp Ymchwil y BGC - tîm amlasiantaeth o ymchwilwyr a dadansoddwyr o nifer o gyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol gwahanol. Mae'r ddogfen a'r atodiadau sy'n gysylltiedig ar gael yn www.abertawe.gov.uk/asesiadbgc

Prif ddiben cychwynnol yr asesiad oedd helpu'r bwrdd i sefydlu nifer bach o amcanion lles ar gyfer ei Gynllun Lles. Bydd y rhain yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru a nodir yn Neddf LlCD.

Nododd asesiad 2017 chwe chanlyniad lles ynghyd â'r prif sbardunau sy'n gysylltiedig â hwy, ac roedd strwythur y ddogfen yn seiliedig ar y rhain:

- Dechrau da mewn bywyd i blant
- Pobl yn dysgu'n llwyddiannus
- Swyddi da i bobl ifanc ac oedolion
- Safon byw dda i bobl
- Pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol
- Mannau da i bobl fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw.

Yn ystod y camau cynnar o baratoi'r Cynllun Lles Lleol yn ystod haf 2017, trafododd partneriaid y BGC, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol a dinasyddion yr hyn sy'n bwysig ar gyfer Abertawe'r dyfodol. Llywiwyd y sgyrsiau hyn gan yr asesiad a ffynonellau eraill, gan arwain at Gynllun Lles cyntaf Abertawe, a gymeradwywyd ym mis Mai 2018. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro mewn ffordd wahanol, a thrwy ganlyniadau'r asesiad gwreiddiol, datblygwyd pedwar amcan newydd a cham gweithredu trawsbynciol:

- Blynyddoedd Cynnar – Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn bod y gorau y gallant fod
- Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda – Gwneud Abertawe'n lle gwych i fyw a heneiddio'n dda ynddo
- Gweithio gyda Natur – Gwella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hôl troed carbon
- Cymunedau Cryfach - Adeiladu cymunedau cryfach a chanddynt ymdeimlad o falchder a pherthyn

- 'Rhannu dros Abertawe' - Cam gweithredu trawsbynciol i weithio tuag at wasanaethau cyhoeddus integredig yn Abertawe drwy rannu adnoddau, asedau ac arbenigedd.

Yn y cynllun, fel yn achos asesiad lleol y llynedd, mae pob un o'r amcanion a'r cam gweithredu uchod yn gysylltiedig â chyfres o sbardunau cynradd ac eilaidd, ynghyd â chamau tymor byr, canolig a hir ar gyfer pob amcan. Mae'r Cynllun Lles Lleol a gymeradwywyd ar gael ar y we-dudalen [www.abertawe.gov.uk/cynllunlleslleoll](www.abertawe.gov.uk/cynllunlleslleoll)

Roedd Asesiad 2017 yn cydnabod bod ganddo ddigon o le i wella. Nodwyd bylchau yn sylfaen dystiolaeth y ddogfen ac mae'r Grŵp Ymchwil wedi ymrwymo i ystyried y rhain ymhellach, yn lleol neu'n genedlaethol, fel rhan o ddatblygiad yr asesiad.

Yn ychwanegol, nid oedd modd mynd i'r afael ar y pryd â nifer o faterion a godwyd yn ymgynghoriad yr asesiad (ar ddechrau 2017), ac mae'r diweddariad hwn yn canolbwyntio ar y cynigion a nodwyd ar gyfer ystyriaeth Grŵp Ymchwil y BGC yn y flwyddyn yn dilyn cyhoeddiad yr asesiad.

Mewn rhai meysydd, mae cynnydd dros y flwyddyn hon wedi bod yn gymharol gyfyngedig; roedd hyn yn anorfod i ryw raddau, gan fod adnoddau partneriaid y BGC wedi'u hoelio ar ddatblygiad y cynllun. Fodd bynnag, o hyn ymlaen y gobaith yw y bydd mwy o gynnydd, yn enwedig gyda datblygiad arfaethedig fframwaith i fesur lefel y boblogaeth a chynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar amcanion, a fydd yn helpu i ddarparu cyd-destun ar gyfer datblygiad y sylfaen dystiolaeth.

Mae'r tabl canlynol yn dangos Atodiad 6 'R' gwreiddiol cynigion yr ymgynghoriad, gyda'r golofn sylwadau yn crynhoi cynnydd hyd yn hyn ac ymateb y Grŵp Ymchwil i bob cynnig.

## **Meysydd i'w datblygu, 2017/18 – Adroddiad Cynnydd** (Grŵp Ymchwil y BGC)

| CYNNIG YR YMGYNGHORIAD | CYNNYDD NEU YMATEB |
|---|---|
| Bwlch yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r amgylchiadau lle nad yw digartrefedd wedi'i atal (cynnig 11) – *Pen pellaf y sbectrwm i bobl yn y sefyllfa hon yw cysgu ar y stryd, a bydd y dystiolaeth ddiweddaraf yn cadarnhau bod hyn ar gynnydd yn Abertawe, yn enwedig o ran y bobl hynny ag anghenion cymhleth.* | Nododd Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad (Atodiad 5 yr asesiad) fod hyn "I'w ystyried fel bwlch tystiolaeth ac ymdrinnir ag ef yn natblygiad yr asesiad yn y dyfodol." Bydd dadansoddiad pellach ynghylch y mater hwn yn cael ei gyflwyno fel rhan o amcan 'Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda' y Cynllun Lles. |
| Priodoldeb y tai sydd ar gael, yn ogystal â'r niferoedd (13) *...Bydd hyn yn her sylweddol i'r ALl a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill dros y blynyddoedd nesaf ac ymddengys ei bod wedi'i hepgor o'ch ffynonellau tystiolaeth... mae'r naratif ar gyfer yr agwedd hon ar y Canlyniad Poblogaeth yn cyfeirio at atal digartrefedd.* | Diwygiwyd fersiwn derfynol asesiad 2017 - yn sbardun F2. Ystyrir y mater hwn ymhellach fel rhan o fonitro a dadansoddi'r amcan 'Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda'. |
| Effaith tai ar iechyd a lles person (18) – *Ymddengys fod llawer o ardaloedd yn 'brin o dai' ... Nid yw'n cael ei grybwyll mewn gwirionedd tan F2 ac F3. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar effaith amgylchedd y cartref ar iechyd meddwl er enghraifft .* | Ystyrir y mater ehangach hwn fel rhan o fonitro a dadansoddi'r amcan 'Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda' ynghyd ag amcanion perthnasol eraill yn y dyfodol. |
| Yr angen i gyfleu'r rhesymau dros y sgorau lles yn glir(22) … *ac efallai bydd angen i sbardunau gael eu rhannu'n nifer o ffigurau e.e. mae sbardun F1 yn crynhoi swm enfawr o ddata a gwybodaeth mewn un ffigur ac felly gellid cynnwys amryfal ffigurau.* | Ceisiodd y crynodebau cychwynnol ar gyfer pob un o'r 19 o sbardunau wneud hyn, a'r sgorau oedd barn gyffredinol y bwrdd am y dystiolaeth ar y pryd. Fel a nodwyd yng nghyflwyniad yr asesiad, nid oedd y sgorau'n fesurau gwyddonol. Nid ystyriwyd bod cynnwys amryfal ffigurau o fewn sbardunau yn ymarferol yn sgîl y fformat a fabwysiadwyd. Yn y dyfodol bydd ein hymagwedd at sgorau'n cael ei hadolygu fel rhan o ddatblygiad fframwaith mesur lles. |
| Dadansoddi a chyfathrebu data gofodol ar les a gwahaniaethau rhwng ardaloedd yn Abertawe, gan gynnwys rhwng ardaloedd cymunedol (yn gysylltiedig â chynigion 23, 38, 47, 62, 77, 78, 86) | Cydnabyddwyd hyn fel cyfyngiad o ran asesiad 2017. Ar adegau'n unig y cafodd data gofodol ei gynnwys yn y brif ddogfen. Bu rhaid cwblhau rhywfaint o ddadansoddi ystadegol cychwynnol ar gyfer Atodiad 2, ac mae proffiliau manylach o'r Ardaloedd Cymunedol wedi'u gwneud, yn seiliedig ar fformat proffil wardiau'r cyngor. Bydd y Grŵp Ymchwil yn ceisio datblygu dadansoddi lleol a'r defnydd o ddata gofodol o fewn y fframwaith mesur. |
| Dadansoddi pellach o effaith bosib tueddiadau yn y tymor hir/dyfodol ar les lleol dan yr holl ganlyniadau a sbardunau (cynigion 24, 34, 66, 70, 88, 103, 104) | Er i benodau'r asesiad geisio gwneud hyn, yn adran y sbardun *Rhagolygon y Dyfodol* yn bennaf, amrywiodd y modd yr ymdriniwyd â hyn yn ystod y ddogfen, yn rhannol oherwydd yr adnoddau oedd ar gael a'r hyn a ystyriwyd yn bwysig. Bydd |

| | |
|---|---|
| | y fframwaith mesur ac asesiadau'r dyfodol yn ceisio cryfhau’r agwedd hon cymaint â phosib, yn sgîl y cyngor cenedlaethol a’r adnoddau sydd ar gael. |
| Gall Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd 2017 helpu i asesu rhagolygon y dyfodol, ymdrin â'r risgiau a chysylltu â'r nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' (24) | Daeth yr Asesiad Risg i law yn rhy hwyr i'w ystyried yn llawn yn nogfen 2017, ond dylai gynorthwyo wrth ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol ac agweddau eraill ar yr asesiad lles yn y dyfodol. |
| Mae'n bosib bod sbardunau amgylcheddol ychydig yn wannach o ran cwmpas - gellid archwilio ymhellach y cysylltiadau rhwng yr amgylchedd naturiol a lles pobl (36) | Ceisiodd sbardunau F1 ac F3 wneud hyn cymaint â phosib. Bydd y newid mewn ffocws a ddarperir gan yr amcanion newydd a'r cam gweithredu trawsbynciol yn y Cynllun Lles Lleol yn galluogi’r cysylltiadau hyn i gael eu harchwilio a’u datblygu ymhellach. |
| Mae tystiolaeth gymharol lai o ran lles diwylliannol (36) | Gwnaed rhai gwelliannau i'r agwedd hon ar sbardun F4 yn y fersiwn derfynol. Mae'n bosib y byddai monitro a dadansoddi pellach o'r amcan 'Cymunedau Cryfach' yn helpu yn hyn o beth. |
| Lles pobl yn y gymuned, yn enwedig safbwyntiau grwpiau diddordeb a nodir yn y canllawiau statudol (37)... *mae'n bosib y gallai rhai o'r safbwyntiau hyn newid y darlun lles cyffredinol yn yr ardal yn sylweddol, neu awgrymu ymagwedd fwy craff... awgrymir trafod y posibiliadau ac argaeledd y dystiolaeth ymhellach yn hyn o beth.* | Ystyriodd yr asesiad anghenion grwpiau penodol i raddau newidiol - yn aml lle roedd y cysylltiadau amlycaf rhwng grwpiau a sbardunau. Roedd cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth a'r adnoddau dadansoddol a oedd ar gael yn ffactorau hefyd.<br>Bydd y Grŵp Ymchwil yn parhau i adolygu hyn a datblygu'r agweddau hyn cymaint â phosib. |
| Rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig (40) | Yn yr asesiad, roedd y cysylltiad agosaf rhwng y mater hwn a thystiolaeth canlyniad E, ond dylid ei ystyried erbyn hyn fel rhan o fonitro a dadansoddi’r amcan 'Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda' ynghyd ag amcanion perthnasol eraill yn y dyfodol. |
| Anghenion troseddwyr yn y ddalfa ac yn y gymuned (42 a 60) | Gellir ystyried y mater hwn fel rhan o fonitro a dadansoddi yn y dyfodol, yn arbennig amcan 'Cymunedau Cryfach' y cynllun. |
| Defnydd o'r Gymraeg a'i chysylltiadau â diwylliant (43) | Roedd dadansoddiad manylach o dystiolaeth ynghylch y Gymraeg yn fersiwn derfynol sbardun F4. Caiff hyn hefyd ei ystyried ymhellach fel rhan o’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer amcan 'Cymunedau Cryfach' y cynllun. |
| Materion tai, gan gynnwys y sector rhentu preifat, cartrefi mewn parciau ac addasiadau i gartrefi (44) | Ystyrir y materion hyn fel rhan o fonitro a dadansoddi ‘r amcan 'Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda' ynghyd ag amcanion perthnasol eraill yn y dyfodol. |
| Yr angen am eglurdeb ar oblygiadau bylchau a chyfyngiadau tystiolaeth, a'r hyn y gellir ei wneud i ymdrin â hwy (45) | Ymdrinnir â hyn yng nghyd-destun dadansoddi tystiolaeth o holl amcanion a sbardunau’r cynllun, y fframwaith mesur ac wrth weithio tuag at yr asesiad nesaf. |

| | |
|---|---|
| Defnyddio mwy o amrywiaeth yn y dulliau cyflwyno data (47, 49) | Roedd asesiad 2017 Abertawe yn ddogfen a oedd yn seiliedig ar destun yn bennaf. Bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried y cwmpas ar gyfer datblygu agweddau cyflwyniadol fel rhan o'r fframwaith mesur. |
| Defnydd o dystiolaeth ansoddol wedi'i chasglu drwy'r gwaith cynnwys (47 ac 86) | Cyhoeddwyd adroddiad 'Tystiolaeth Ansoddol....' Abertawe o'r comisiwn rhanbarthol fel Atodiad 4, ond nid ystyriwyd bod ei gysylltiadau ag asesiad Abertawe (na'i negeseuon ar ei gyfer) yn ddigon clir ac nid oedd modd eu cynnwys bryd hynny. Yn y dyfodol, bydd y fframwaith mesur yn ystyried ffyrdd effeithiol o gynnwys dinasyddion. |
| Gwella'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar asedau, gan gynnwys cyfle i ail-lunio rhan o'r dadansoddiad i bwysleisio cryfderau – gan archwilio cyfleoedd yn ogystal â heriau (48) | Ceisiodd yr asesiad wneud hyn yn adran 'Cryfder Abertawe' pob sbardun, er bod rhan o'r cynnwys yn ymwneud yn y bôn â heriau a gwendidau. Bydd dadansoddi yn y dyfodol yn ceisio datblygu'r ymagwedd hon. |
| Dull o grynhoi'r dystiolaeth naill ai ar lefel y sbardunau neu'r canlyniadau (51) | Yn yr asesiad terfynol, gwnaed hyn ar gyfer y canlyniadau (ar ddechrau pob pennod) ac ar lefel sbardun ochr yn ochr â'r sgorau (1-10). |
| Os bydd sgôr y sbardunau'n cynyddu neu'n gostwng, bydd rhaid i hyn gael ei gyfeirio gan y dystiolaeth sydd ar gael a dealltwriaeth o’r rhesymau dros hynny (52) | Roedd safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r defnydd o sgorio goddrychol, ac os cedwir hwn fel rhan o fframwaith yn y dyfodol, ailystyrir y materion hyn.<br>At ei gilydd, mae'r sbardunau yn y cynllun newydd yn wahanol, gan gyfyngu ar y potensial ar gyfer dadansoddi newidiadau yn y sgorau yn y tymor byr. |
| Dylid llywio sgorau’r sbardunau a'r amcanion trwy eu cymharu ag ardaloedd y tu allan i Gymru – rhai eraill yn y DU/y gorau sydd ar gael (55) | Roedd y cyfle i wneud hyn wedi’i gynnwys yn yr arweiniad a gyflwynwyd i gyfranwyr ar y cynnwys, ac yn cael ei gynnwys lle roedd yn darparu mewnwelediad. Dylai dadansoddi yn y dyfodol barhau i ystyried y cyd-destun ehangach a chymariaethau perthnasol. |
| Dylai canfyddiadau gwaith craffu/ymchwiliadau eraill lywio'r asesiad (57) | Roedd canfyddiadau craffu dethol wedi’i gynnwys yn yr asesiad terfynol, a dylai'r rhain barhau i fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu fel y bo'n briodol. |
| Disgrifiad ehangach o heriau lles yn Abertawe yn ystod y tymor byr, canolig a hir i ddarparu cyd-destun ar gyfer y 6 chanlyniad a'r 19 o sbardunau (61 a 64) | I ryw raddau mae amgylchiadau a newidiadau i strwythur y cynllun ar gyfer amcanion a sbardunau wedi bod yn drech na hyn. Fodd bynnag, gellir ystyried hyn hefyd yn ystod camau cynnar yr asesiad nesaf (2022). |
| Mwy o esboniad o arwyddocâd y data a'r heriau allweddol i les ar draws yr holl sbardunau (63) | Ceisiodd yr asesiad wneud hyn cymaint â phosib, ac fe’i hystyrir yn ystod camau cynnar yr asesiad nesaf. |
| Sut y bwriedir defnyddio data'r asesiad, rheoli bylchau data a sut bydd cynllunio lles yn datblygu (67) | Gwnaed rhai diwygiadau i'r fersiwn derfynol i ymdrin â hyn (Cyflwyniad) ac fe’u trosglwyddwyd i'r Cynllun Lles. Fel rhan o bapur 18 02 y Grŵp Ymwchil, crynhowyd y bylchau tystiolaeth a |

| | |
|---|---|
| | nodwyd yn yr asesiad hefyd. |
| Ystyried y data a'r dystiolaeth sydd ar yr agenda ataliol i gael dealltwriaeth gliriach o gymunedau a phobl sy’n gydnerth neu sy’n ddiamddiffyn yn wyneb tueddiadau’r presennol a’r dyfodol (71 a 95) | Bydd angen gwell dealltwriaeth ac ystyriaeth wrth symud ymlaen, yn arbennig yng nghyd-destun 'Cymunedau Cryfach' ond hefyd mewn amcanion eraill. |
| Dylai adrannau Crynodeb/'Ynghylch y canlyniad hwn' fod yn fwy pendant am eu heffaith ar les - gallai'r nodau cenedlaethol fod o ddefnydd ar gyfer hyn (75) | Ceisiodd yr asesiad terfynol wella’r agwedd hon cymaint â phosib, ac mae'r Cynllun Lles Lleol yn mynd â hyn ymhellach drwy wneud y cysylltiadau â'r nodau cenedlaethol yn fwy amlwg. |
| Cynnwys mwy o ddata ar ynni, dŵr a thrafnidiaeth hanfodol ac isadeiledd hanfodol arall (79) | Y canlyniadau a’r sbardunau a oedd wedi’u cynnwys gan y BGC yn asesiad 2017 oedd y rhai a ystyriwyd yn fwyaf arwyddocaol ar y pryd. Ystyrir y materion hyn yn y fframwaith mesur a datblygiad yr asesiad yn y dyfodol. |
| Gellir cryfhau'r adrannau 'Ynghylch y dystiolaeth' i ddarparu adnodd da i'r BGC ddeall bylchau mewn data a'r potensial i fynd i'r afael â hwy (90 a 108) | Cyfeiriwyd at y bylchau mewn data, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn adrannau 'Ynghylch y dystiolaeth' yr asesiad, ac fe’u crynhowyd ym mhapur 18 02 y Grŵp Ymchwil.<br>Byddai'n ddefnyddiol i ddosbarthu'r crynodeb hwn yn ehangach, gan gynnwys partneriaid y BGC. |
| Canlyniad B - trafodaeth gyfyngedig am y prifysgolion neu'r colegau yn Abertawe ac ni soniwyd am addysg barhaus (92) | Cryfhawyd y dystiolaeth yn y canlyniad hwn ynghylch y sector addysg uwch ac addysg bellach yn yr asesiad terfynol. Caiff hon ei ystyried ymhellach fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer 'Cymunedau Cryfach' ac amcanion eraill. |
| Y cydberthnasau rhwng data o bob adran (ac o fewn pob adran) a rhwng yr 19 o sbardunau (101) | Nid oedd yr asesiad yn amlygu'r cydberthnasau hyn mewn ffordd gyson a chynhwysfawr bob amser. Bydd ymagwedd a strwythur y cynllun, ynghyd â'r fframwaith mesur newydd, yn ceisio gwella hyn. |
| Ystyriaeth bellach o faterion cydlyniant cymunedol - yn gysylltiedig â Chynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol 2017-18 a'r nod cenedlaethol ‘cymunedau cydlynus’ (113). | Bydd y sylfaen dystiolaeth sy’n datblygu ar gyfer yr amcan 'Cymunedau Cryfach' yn benodol yn ystyried y datblygiadau diweddaraf yn y materion hyn. |